DECIPHer

Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd

Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd



# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

https://decipher.uk.net

# CYFLWYNIAD

Mae DECIPHer yn dwyn ynghyd arbenigwyr blaenllaw o ystod o ddisgyblaethau i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd megis iechyd meddwl a lles, cydberthnasau cymdeithasol cadarnhaol, deiet a maeth, gweithgarwch corfforol, a thybaco, alcohol a chyffuriau. Mae gennym bwyslais arbennig ar ddatblygu, gwerthuso a gweithredu polisïau ac ymyriadau sydd, drwy wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau, yn cael effaith ar iechyd a lles plant a phobl ifanc.

Mae DECIPHer yn ymgysylltu â chymunedau academaidd, polisi, ymarfer a defnyddwyr ac yn datblygu gallu ymchwil. Mae hyn yn cynnwys cefnogi staff a myfyrwyr, cyflwyno cyrsiau byr, a sefydlu Rhwydweithiau Ymchwil Gwella Iechyd y Cyhoedd. Hyd yn hyn, rydym wedi llwyddo i ddatblygu'r rhwydwaith Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd (ALPHA) ar gyfer pobl ifanc, a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) ar gyfer ysgolion, ac rydym wedi dechrau ehangu i leoliadau yn y gweithle a lleoliadau cymunedol.



Mae'r gwaith hwn yn cefnogi ein pedair rhaglen ymchwil drawsbynciol:

1. POLISÏAU DROS GYHOEDD IACH
2. AMGYLCHIADAU A SEFYDLIADAU IACH
3. CYDBERTHNASAU CYMDEITHASOL IACH
4. ARLOESEDD METHODOLEGOL YM MAES GWYDDONIAETH IECHYD Y CYHOEDD

Mae dull cyd-gynhyrchiol hefyd yn cefnogi'r gwaith o drosi tystiolaeth drwy ein gwaith ar y cyd, gwaith ymgysylltu a gwaith effaith. Gallwch ddod o hyd i fanylion am ein cynnydd blynyddol ym mhob un o'r meysydd hyn yn ein hadroddiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n anochel ein bod wedi delio â'r heriau a gododd yn sgil y pandemig. Mae hyn wedi golygu gweithredu o bell fel canolfan, symud i ddigwyddiadau ar-lein, ac atal nifer o brosiectau ymchwil. Mae hefyd wedi golygu chwarae rhan fwy o safbwynt cefnogi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys bod yn aelod o'r Gell Ymgynghorol Dechnegol ar gyfer Plant ac Addysg. Mae hyn wedi amlygu perthnasedd cynyddol ein gwaith o ran ymateb i'r heriau iechyd poblogaeth sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a'r tu hwnt.



Yr Athro Simon Murphy
Cyfarwyddwr DECIPHer


# PWY YDYM NI A SUT RYDYM YN GWEITHREDU?

Daw ymchwilwyr DECIPHer o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a'r Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym yn dod ynghyd fel Bwrdd Partneriaeth Strategol i oruchwylio gwaith y ganolfan, ac fe'n cefnogir gan Fwrdd Cynghori Strategol Cynnwys y Cyhoedd a Bwrdd Cynghori Gwyddonol. Mae Tîm Gweithredol DECIPHer yn gyfrifol am waith cyflenwi a gwaith rheoli'r ganolfan o ddydd i ddydd.

## Tîm Gweithredol




## DECIPHer Cyd-Ymchwilwyr



# METRIGAU CRAIDD

## Cyfnod adrodd: 2020/2021

**Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp**

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd **£437.6k**

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol **9**

### Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Nifer | 8 | 25 |
| Gwerth | £1.27m | £14.87m |
| Cyllid i Gymru | £1.25m | £7.04m |
| Cyllid i grŵp | £1.18m | £1.7m |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | 9 | 19 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp | 9 | 12 |

**49** Nifer y cyhoeddiadau

**51** Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

**59** Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ariennir Canolfan DECIPHer gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Eleni, cawsom grant o £437,674.93 ac mae ein cydweithrediadau wedi sicrhau 25 o astudiaethau ymchwil newydd gyda gwerth o dros £14 miliwn, y daeth gwerth £7 miliwn ohono i Gymru. Cafodd wyth o'r astudiaethau hyn eu harwain gan DECIPHer, a daeth £1.18 miliwn yn uniongyrchol i'n canolfan ni. Mae hefyd yn werth nodi'r llwyddiant blaenorol o ran sicrhau'r £10 miliwn ar gyfer Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH) a'r gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), a ddechreuodd eleni. Yn ogystal â llwyddiant allweddol gyda seilwaith, mae cyllid wedi cefnogi ystod eang o brosiectau a nodir yn ein hadran rhaglenni ymchwil.

Mae'n werth nodi hefyd bod ein llwyddiant wedi arwain at greu 19 o swyddi ychwanegol yng Nghymru, y mae 12 ohonynt yn ein canolfan. Ceir rhagor o fanylion am sut rydym wedi datblygu gallu ymchwil yn adran nesaf yr adroddiad.

Mae DECIPHer wedi cefnogi 51 o weithgareddau a digwyddiadau cydweithredol gyda'n rhanddeiliaid i gydgynhyrchu a throsi ein hymchwil. Mae hyn wedi cynnwys grwpiau datblygu ceisiadau ymchwil gorchwyl a gorffen, a digwyddiadau ymgynghori ar strategaeth y ganolfan. Yn y cyfamser, rydym wedi cynhyrchu 49 o gyhoeddiadau, gan gynnwys erthyglau cyfnodolion a adolygwyd, ac adroddiadau a chanllawiau cyhoeddedig. Eleni, rydym hefyd wedi llwyddo i gefnogi a chyflwyno 51 o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan staff ein canolfan, digwyddiadau DECIPHer ar-lein, a'n rhaglen ryngwladol o gyrsiau byr.

Gwnaeth DECIPHer gyfraniadau sylweddol yn ystod y flwyddyn, gan gefnogi gwaith datblygu a gwerthuso polisïau, a hynny drwy adolygu strategaethau ac adnoddau cenedlaethol drwy ei aelodaeth o'r Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd, a grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru. Cyfeiriodd Grŵp Mewnwelediadau Pandemig Gwyddonol ar Ymddygiadau Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau Llywodraeth y DU sawl tro hefyd at ein gwaith methodolegol ar gydgynhyrchu. Ceir rhagor o fanylion am weithgareddau yn yr adran 'Cydweithredu, ymgysylltu ac effeithiau'.



# DATBLYGU GALLU

## Rhwydweithiau ymchwil gwella iechyd y cyhoedd

Mae DECIPHer yn mabwysiadu dull partneriaeth cydgynhyrchu o fynd i'r afael â heriau cymhleth ym maes iechyd y cyhoedd. I'r perwyl hwn, rydym wedi datblygu nifer o rwydweithiau uchel eu heffaith ym maes iechyd y cyhoedd yn llwyddiannus. I ddechrau, yn 2005, ariannwyd y cyntaf o'r rhain, sef Rhwydwaith Ymchwil Gwella Iechyd y Cyhoedd, gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a fodolai ar y pryd. Ers hynny, mae DECIPHer wedi datblygu'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion a rhwydwaith cynghori pobl ifanc, sef Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd. Nod cyffredinol y rhwydweithiau hyn yw dwyn ynghyd randdeiliaid polisi, ymarfer, cyhoeddus ac academaidd i ddatblygu atebion i'r heriau yng Nghymru o ran iechyd y cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn drwy sefydlu grwpiau datblygu ymchwil rhanddeiliaid i ddatblygu ceisiadau am gyllid ac yna cefnogi'r astudiaethau ymchwil a'r gwaith o'u trosi er mwyn cael effaith. Yn rhannol, cyflawnir hyn drwy flaenoriaethau ymchwil a rennir a datblygu gallu ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru fel partner polisi ac ymarfer allweddol. Gweler ein hadran ar 'Cydweithredu, ymgysylltu ac effeithiau' i gael gwybod beth mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion a'r Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd wedi'i wneud eleni.

Bu ariannu Tîm Astudiaethau Ymatebol Ymyrraeth Iechyd y Cyhoedd yn llwyddiannus, gan gynnwys ymchwilwyr DECIPHer yr Athro Simon Murphy a Dr Jemma Hawkins, a chyd-gymrawd ymchwil DECIPHer Dr Kelly Morgan, yn ddatblygiad rhwydwaith ychwanegol. Mae hwn yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bryste sy'n un o bedwar Tîm Astudiaethau Ymatebol Ymyrraeth Iechyd y Cyhoedd ar draws y DU a ariennir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Mae menter Tîm Astudiaethau Ymatebol Ymyrraeth Iechyd y Cyhoedd yn cysylltu ymchwilwyr academaidd ag awdurdodau lleol i gydgynhyrchu a gweithredu gwerthusiadau o ymyriadau sydd eisoes yn bodoli sy'n canolbwyntio ar wella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae cydgynhyrchu wrth wraidd ein dull o ymdrin â'r gwaith hwn, sydd wedi'i lywio gan safonau'r DU ar gyfer cynnwys y cyhoedd, a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd hyn o ran cydweithredu llwyddiannus rhwng ymchwilwyr, ymarferwyr, llunwyr polisi a'r cyhoedd. Mae'r dull cydweithredol hwn gyda rhanddeiliaid llywodraeth leol yn datblygu gallu ymchwil o fewn awdurdodau lleol. Y fenter gyntaf y mae'r tîm yn ei gwerthuso yw clwb brecwast cyffredinol am ddim, a phrosiect prydau ysgol uwchradd mewn awdurdod lleol yn Llundain. Mae ail werthusiad menter, dan arweiniad yr ymchwilwyr yn DECIPHer, wedi'i gydgynhyrchu gyda rhanddeiliaid awdurdodau lleol drwy grŵp gorchwyl a gorffen, a bydd yn dechrau yn 2021.

Mae ein cynlluniau ar gyfer datblygu'r rhwydweithiau ymchwil o fewn DECIPHer yn y dyfodol yn cynnwys ymestyn ein cwmpas i ddatblygu rhwydweithiau ymchwil mewn meysydd polisi ac ymarfer newydd. Mae canolbwyntio ar leoliad y gweithle mewn cydweithrediad â Cymru Iach ar Waith, sef rhaglen Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn un o feysydd ffocws penodol y gwaith ehangu. Mae ehangu gwaith y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion i rannau eraill o system addysg Cymru hefyd yn cael ei archwilio.


Julie Bishop



Jemma Hawkins

## Cyrsiau byr cenedlaethol a rhyngwladol

Mae'r gyfres o gyrsiau byr methodoleg gan DECIPHer, a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac a gyflwynir i ymchwilwyr, ymarferwyr a llunwyr polisi, yn rhan allweddol o'n rhaglen methodoleg ymchwil. Er gwaethaf cyfyngiadau pandemig COVID-19, mae'r tîm wedi parhau i ddarparu addysgu a hyfforddi sy'n gysylltiedig â dulliau, a hynny drwy ddulliau ar-lein o bell. Arweiniodd cyd-ymchwilwyr DECIPHer Dr Jemma Hawkins a'r Athro Graham Moore gwrs hyfforddiant doethurol achrededig dwy wythnos ar-lein ar ddatblygu a gwerthuso ymyriadau cymhleth ar gyfer Sefydliad Karolinska yn Sweden. Denodd y cwrs fyfyrwyr gwyddorau iechyd o Sefydliad Karolinska ei hun, yn ogystal â myfyrwyr o leoedd eraill yn Sweden, Denmarc, yr Iseldiroedd a Tanzania. Cafodd y cwrs adborth rhagorol, mae'n cael ei gynnal eto yn 2021, ac mae eisoes wedi'i archebu'n llawn, gyda rhestr aros sy'n tyfu. Mae'r cydweithredu hwn â chydweithwyr academaidd yn Sefydliad Karolinska wedi arwain at grantiau ariannu allanol llwyddiannus, y mae Dr Jemma Hawkins ynghlwm wrthynt fel cydweithredwr.

Ym mis Hydref 2020, cyflwynodd cyd-ymchwilydd DECIPHer Dr Rhiannon Evans a'r cydymaith ymchwil Dr Rachel Brown fersiwn ar-lein addasedig o'r cwrs Gwerthuso Prosesau i 15 o ymchwilwyr a myfyrwyr doethurol ym Mhrifysgol Aalborg, Denmarc. Cafodd y cwrs adborth cadarnhaol iawn, a bwriedir ei gynnal eto yn 2021. Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Dr Jeremy Segrott, sef cyd-ymchwilydd DECIPHer ac uwch-ddarlithydd y Ganolfan Treialon Ymchwil, a Peter Gee, sef Swyddog Cynnwys y Cyhoedd, gwrs hyfforddi cynnwys y cyhoedd mewn cydweithrediad ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar sut i gynnwys pobl ifanc yn y broses o gynllunio a chynnal ymchwil. Roedd y cwrs wedi'i archebu'n llawn gydag 20 o gyfranogwyr yn bresennol, a chafodd adborth cadarnhaol iawn. Cafwyd ceisiadau i'w gynnal eto yn ddiweddarach yn 2021. O ganlyniad i lwyddiannau cyflwyno cyrsiau ar-lein hyd yn hyn, mae'r cwrs byr DECIPHer pum niwrnod blynyddol wedi'i fyrhau yn gwrs ar-lein tri diwrnod ar gyfer 2021.

**Cwmwl geiriau o feddyliau cyfranogwyr am ddatblygu ymyriadau ym maes addysgu cyrsiau byr:**



## Cefnogi staff ymchwil

Eleni, gwnaethom longyfarch Graham Moore, sef ein Dirprwy Gyfarwyddwr, a gafodd ei ddyrchafu i fod yn athro. Cafodd Graham ei enwebu hefyd ar gyfer y wobr Goruchwyliwr Doethurol Eithriadol, ynghyd â Rhiannon Evans ar gyfer y wobr Tiwtor Personol Eithriadol, yng Ngwobrau Gwella Bywyd Myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Eleni hefyd, dyfarnwyd doethuriaethau i ddau o'n myfyrwyr DECIPHer, sef Manal Alhumud, a archwiliodd 'Mynychder, penderfynyddion economaidd-gymdeithasol, a chanlyniadau iechyd cysylltiedig y defnydd o ddiodydd ynni ymhlith pobl ifanc yng Nghymru a Saudi Arabia: astudiaeth dull cymysg', a Stephen Jennings, a ymchwiliodd i 'Cydgynhyrchu ymyriadau iechyd a lles mewn ysgolion cynradd'.

Rydym hefyd wedi cefnogi nifer sylweddol o'n hymchwilwyr i symud ymlaen yn eu hastudiaethau ôl-raddedig a'u gyrfaoedd ôl-ddoethurol. Gwnaethom ofyn i dri ohonynt fyfyrio ar eu profiadau gyda DECIPHer.

### AMY SIMPSON



Ymunais â DECIPHer yn 2016 fel myfyriwr Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Prifysgol Caerdydd ar Leoliad yn gweithio ar werthuso Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol 'Bwyd a Hwyl'. Cynigiodd y lleoliad y cyfle i weithio mewn amgylchedd ymchwil, gwella sgiliau academaidd ac ymchwil, ac annog cymryd rhan mewn gweithgareddau academaidd. Fe'm cyflogwyd wedyn yn DECIPHer yn gweithio ar yr Astudiaeth Lles mewn Addysg Uwchradd, lle bu cyfleoedd i gymryd rhan mewn casglu a dadansoddi data a oedd yn cefnogi fy natblygiad proffesiynol cyffredinol. Cefais wahoddiad i gyfarfod â Simon Murphy i drafod fy nyheadau gyrfa yn y dyfodol. Nodais fy niddordeb mewn sefydlu gyrfa academaidd, a rhoddodd Simon fi mewn cysylltiad ag uwch-ymchwilwyr. Gyda chymorth ac arweiniad gan Graham Moore a Jemma Hawkins, llwyddais sicrhau cyllid gan Gynllun Ariannu Doethurol 3+1 y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Dylanwadodd fy mhrofiadau o Raglen Cyfleoedd Ymchwil Prifysgol Caerdydd ar Leoliad yn fawr ar fy ymchwil doethuriaeth o'r enw 'Ymgysylltiad Rhieni â Bywyd Ysgol Plant: Y Rhaglen Cyfoethogi Ysgolion Bwyd a Hwyl: Astudiaeth Achos'. Ar hyn o bryd, rwy'n ymgymryd ag interniaeth yn Adran Addysg Llywodraeth Cymru, gan weithio ar adroddiad ar feithrin gallu ymchwil addysgol mewn addysg uwch a fydd yn cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysg yng Nghymru. Bydd prosiect cydweithredol arall rhwng Llywodraeth Cymru a DECIPHer yn amlygu'r dulliau amlasiantaethol a ddefnyddir i liniaru'r niwed a achoswyd i blant yn sgil cau ysgolion yn ystod pandemig y coronafeirws yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'm doethuriaeth, rwyf wedi ymgymryd â llawer o gyfleoedd datblygu gyrfa a rhwydweithio, gan gynnwys arwain y Fforwm DECIPHer, hwyluso ar y cwrs byr DECIPHer, ac ysgrifennu blogiau a chyfraniadau at bapurau academaidd. Rwyf wedi cwblhau Cymrodoriaeth Gyswllt Advance HE, a chwarae rhan mewn addysgu ar sawl modiwl gwyddor gymdeithasol israddedig, ac wedi gweithio ochr yn ochr â Jemma Hawkins wrth iddi oruchwylio myfyriwr gyda'i draethawd hir israddedig. Rwyf bellach ym mlwyddyn olaf fy noethuriaeth, yn ysgrifennu fy nghanfyddiadau gyda'r gobaith o aros yn y byd academaidd a sicrhau rôl ymchwil ac addysgu.

## EMILY LOWTHIAN



Rwyf wedi bod ynghlwm wrth DECIPHer ers saith mlynedd, ers dechrau fy lleoliad ymchwil yn 2014. Yn dilyn hynny, yr Athro Moore oedd fy ngoruchwyliwr ar gyfer fy nhraethawd hir, ac efe a'm hanogodd i wneud doethuriaeth. Fodd bynnag, cyflwynais geisiadau i dri sefydliad ond ni fues i'n llwyddiannus. Ond nid oedd hynny wedi fy atal gan fy mod wedi gallu cael swydd yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn rhannol oherwydd y sgiliau yr oeddwn wedi'u datblygu drwy weithio gyda DECIPHer! Ond ni ddiflannodd yr awydd i wneud ymchwil academaidd mewn gwirionedd, ac yn 2016 ymgeisiais i am ddoethuriaeth o fewn DECIPHer, a bues i'n llwyddiannus o'r diwedd! Testun y ddoethuriaeth oedd ymchwilio i effaith defnydd rhieni o sylweddau ar gyrhaeddiad plant, ac, er eich bod yn clywed llawer o sylwadau negyddol am ddoethuriaethau, buodd yn brofiad pleserus a buddiol o'm safbwynt i, a does dim dwywaith fod hynny o ganlyniad i gefnogaeth DECIPHer. O fod ynghlwm wrth y prosiect, i ddarparu cyngor, addysgu a sgyrsiau anffurfiol yn y gegin, cafodd DECIPHer ddylanwad ar fy ngwaith. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'm goruchwylwyr a'm hadolygwyr cynnydd, a'm hanogodd i chwalu'r patrwm a defnyddio ystadegau mwy newydd, ond cymhleth.

Drwy hyn, gwnes i gwblhau swydd saith mis yn DECIPHer, dros gyfnod mamolaeth, fel cyswllt ymchwil. Datblygais sgiliau o ran gweithio gyda'r trydydd sector, data arferol, a chyhoeddiadau blaenllaw. Roedd y profiad hwn yn amhrisiadwy, ac ni fyddwn yn fy swydd bresennol hebddo, sef Gwyddonydd ac Ymchwilydd Data ym Mhrifysgol Abertawe. Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio ar gyfuno data carfan a data arferol i archwilio'r cydberthynas rhwng iechyd rhieni a datblygiad gwybyddol plant. Rwy'n bwriadu parhau i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o archwilio penderfynyddion iechyd plant, ac rwy'n gobeithio sicrhau fy ngrant neu gymrodoriaeth fy hun er mwyn ymestyn hyn, ac er mwyn cyhoeddi mwy, wrth gwrs!

## DANIELLE COUTURIAUX



Ymunais â DECIPHer yn 2018 fel rhan o Raglen Cyfleoedd Ymchwil Prifysgol Caerdydd ar Leoliad, yn gweithio ar yr astudiaeth Llesiant mewn Addysg Uwchradd. Gan wybod y byddwn yn graddio'n fuan, roeddwn am ennill cymaint o brofiad ymchwil â phosibl er mwyn gwella fy rhagolygon cyflogadwyedd ond hefyd i benderfynu ar ba lwybr gyrfa i'w gymryd. Roedd gweithio yn DECIPHer wedi gwneud hyn oll yn bosibl, a chafodd hynny ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth eang o rolau a phrosiectau yr ymgymerais i â nhw, a thrwy amgylchedd cefnogol a oedd yn annog ac yn hybu dysgu a datblygiad sgiliau yn barhaus.

Ar ôl fy lleoliad, parheais i weithio ar yr astudiaeth Llesiant mewn Addysg Uwchradd fel Gweinyddwr Ymchwil Arbenigol, pan wnes i gydweithio ar ddau adolygiad systematig, cynorthwyo â'r gwaith o gasglu data ar gyfer y treial JACK, a chynnal gwaith dadansoddi ansoddol ar gyfer astudiaeth ADAPT y Cyngor Ymchwil Feddygol. Ar ôl graddio, ymunais â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion fel cynorthwyydd ymchwil ac yna'n ddiweddarach fel rheolwr data. Roedd hwn yn gyfle cyffrous iawn gan fy mod wedi defnyddio data arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ar gyfer fy nhraethawd hir israddedig yn archwilio'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â thrais ar ddêt a thrais mewn perthynas ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Byddai dweud fy mod wedi fy syfrdanu pan awgrymodd cydweithwyr fy mod yn cyhoeddi fy nhraethawd hir yn dweud y lleiaf. Mae cyhoeddi papur sy'n seiliedig ar fy nhraethawd hir israddedig wedi bod yn un o'm cyflawniadau mwyaf balch, ac yn un na allwn fod wedi'i wneud heb fewnbwn, cefnogaeth (emosiynol ac academaidd!) ac anogaeth fy nghydweithwyr yn DECIPHer. Mae fy amser yn DECIPHer wedi bod yn amhrisiadwy, nid yn unig o ran y sgiliau a enillais i ond o safbwynt y ffrindiau a wnes i. Cyfrannodd fy mhrofiadau ataf yn dilyn gyrfa ymchwil, lle rwyf ar hyn o bryd yn swyddog ymchwil yn Llywodraeth Cymru ar dîm Arolwg Cenedlaethol Cymru.

# RHAGLENNI YMCHWIL

Mae ein gwaith yn seiliedig ar bedair rhaglen ymchwil drawsbynciol:

## 1. POLISÏAU DROS GYHOEDD IACH

Yn ystod ei ddeng mlynedd cyntaf, ymgymerodd DECIPHer ag ystod amrywiol o waith ymchwil, gan ddylanwadu ar bolisïau iechyd y cyhoedd a'u gwerthuso. Ymhlith yr enghreifftiau oedd gwerthuso'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, ac ymchwil y cyfeiriwyd ati gan Lywodraeth Cymru fel gwaith a lywiodd y penderfyniad i wahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant.

O 2020 ymlaen, mae'r rhaglen Polisi Cyhoeddus Iach newydd yn adeiladu ar y gwaith hwn.

Mae ei nodau fel a ganlyn:

i) darparu tystiolaeth amserol a chadarn i ddylanwadu ar benderfyniadau gan sefydliadau llywodraeth ar lefel genedlaethol a lleol, er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau

ii) gwerthuso'r dull o weithredu'r penderfyniadau hyn, a'u heffeithiau.

Mewn partneriaeth â chonsortiwm Partneriaeth Ymchwil Atal y DU, sef SPECTRUM (Shaping Public hEalth poliCies To RedUce harm), y mae ei dîm ymchwilio yn cynnwys dau gyd-ymchwilydd DECIPHer (sef yr Athro Graham Moore a Dr Julie Bishop), rydym wedi cefnogi'r gwaith o ehangu'r Arolygon Pecyn Cymorth Ysmygu ac Alcohol o Loegr i Gymru a'r Alban (1). Bydd hyn yn darparu ffynhonnell newydd o ddata er mwyn llywio polisïau a dadansoddi effeithiau polisïau ar draws y gwledydd datganoledig, gan adeiladu ar ein hanes amlwg o ddylanwadu ar bolisïau tybaco yng Nghymru. Mae DECIPHer yn ymchwilwyr ar grant newydd a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol / Cyngor Ymchwil Iwerddon ac a arweinir gan Brifysgol Stirling, sy'n anelu at ddatblygu rhwydwaith yn y DU ac Iwerddon sy'n canolbwyntio ar ymyrryd i leihau amlygiad plant i fwg mewn cartrefi.

Rydym yn parhau i fanteisio ar setiau data arolwg mawr yng Nghymru i archwilio tueddiadau amser mewn materion iechyd cyhoeddus megis defnydd pobl ifanc o dybaco a chanabis (2), gan gyfleu'r rhain drwy ein rhwydweithiau er mwyn darparu tystiolaeth i randdeiliaid polisi mewn perthynas â meysydd polisi â blaenoriaeth. Gan ehangu'r gwaith hwn i nwyddau fel diodydd ynni, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiadau o dueddiadau amser yn ddiweddar o ran defnydd pobl ifanc o ddiodydd siwgr a diodydd ynni (3). Nod hyn yw llywio dadleuon polisi parhaus yn y maes hwn, megis oedran gwerthu diodydd ynni, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori arnynt fel rhan o'i chynllun cyflawni strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach ar gyfer 2021/22.

Mae'r rhaglen hefyd yn canolbwyntio ar effeithiau penderfyniadau polisi ar iechyd y tu hwnt i'r sector iechyd, gan gysylltu â rhaglenni ymchwil eraill DECIPHer. Er enghraifft, mae'n cysylltu â'r rhaglen Lleoliadau Iach drwy waith sy'n canolbwyntio ar bolisïau addysg, gan gynnwys gwaith ymchwil parhaus ar y Strategaeth Iechyd Meddwl mewn Ysgolion mewn partneriaeth â Chanolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc ac yn ystod y broses o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru.



Graham Moore



Amanda Robinson



Dechreuodd y grant DECIPHer yn ystod yr wythnosau yn dilyn dechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf. Felly, un o'r pethau y mae'r rhaglen hon wedi canolbwyntio arno yn ystod ei chamau cynharaf yw deall effeithiau ymatebion polisi i'r pandemig, er mwyn llywio penderfyniadau polisi wrth gefnogi'r broses o adferiad yn sgil y pandemig.

Mae dau ymchwilydd DECIPHer (yr Athro Mike Robling a'r Athro Graham Moore) yn ymchwilwyr ar Astudiaeth Iechyd ac Ymddygiad Ceisio Cymorth COVID a ariennir gan UKRI, sy'n cysylltu nifer o fathau o seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys cydweithio â'r Ganolfan Treialon Ymchwil a Doeth am Iechyd. Mae'n canolbwyntio ar effeithiau mesurau Aros Gartref ar achosion o gyflwyno symptomau canser ac ymddygiad sgrinio. Mae ymchwilwyr DECIPHer ar y broses barhaus o Adfer Teuluoedd ar ôl Cam-drin Domestig, a ariennir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, hefyd yn gweithio gyda Chymorth i Fenywod Caerdydd i ddeall patrymau atgyfeiriadau i'w wasanaethau yn ystod cyfnodau lle ceir cyfyngiadau symud. Mae ein hymchwil barhaus, a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, yn archwilio effeithiau cyfyngiadau COVID-19, gan gynnwys cau ysgolion, ar barodrwydd plant i bontio i ysgolion uwchradd, ynghyd â'u hiechyd meddwl ac ymddygiadau risg.

# 2. AMGYLCHIADAU A SEFYDLIADAU IACH

Nod y rhaglen Lleoliadau a Sefydliadau Iach yw datblygu a gwerthuso dulliau system gyfan o wella iechyd y boblogaeth, yn ogystal â deall y dull o'u gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith hyd yn hyn wedi digwydd mewn lleoliadau addysg, sef ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau addysg bellach.

> Mae ysgolion, yn enwedig, yn darparu un o'r cyd-destunau pwysicaf ar gyfer datblygiad ac iechyd pobl ifanc ac maent yn lleoliadau allweddol ar gyfer gwella iechyd.

Yn hanesyddol, rydym wedi cynnal nifer fawr o astudiaethau mewn ysgolion, ond yn 2013 gwelsom newid sylweddol yn ein gwaith o sefydlu'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn dwyn ynghyd ysgolion, ymchwilwyr a sefydliadau polisi ac ymarfer allweddol i wella maint ac ansawdd gwaith ymchwil ym maes gwella iechyd mewn ysgolion. Yn seiliedig ar fodel Ysgolion Hybu Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn cysylltu sawl agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm, yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol, a chysylltiadau â theuluoedd a'r gymuned leol. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu ein rhaglen ymchwil, gan ganolbwyntio ar leoliadau yn y gweithle a'r gymuned.


Simon Murphy


Honor Young

## Cefnogi strategaethau ysgolion iach

Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Wolfson (gwerth £10 miliwn) newydd ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, mae DECIPHer wedi cefnogi Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu'r Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol, ac wedi sicrhau cyllid ar gyfer cynnal asesiad o allu'r fframwaith i werthuso cyn ei werthusiad ar lefel genedlaethol gan ddefnyddio seilwaith y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Mae DECIPHer, drwy ddarparu dadansoddiad data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, hefyd wedi cefnogi'r gwaith o werthuso rhaglen beilot Mewngymorth CAMHS Llywodraeth Cymru ac o ddatblygu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Mae DECIPHer hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r broses adfer yn sgil y pandemig mewn ysgolion, gan gynnwys drwy'r Pwyllgor Cynghori Technegol COVID ar Blant ac Addysg.

## Hybu arferion ysgolion iach

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn parhau i elwa ar ymgysylltu â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion a'i seilwaith data. Gwnaethom ddosbarthu adroddiadau wedi'u teilwra i 198 o ysgolion a gymerodd ran, a phob awdurdod addysg lleol ledled Cymru, ar faterion iechyd a lles eu disgyblion. Gan ddefnyddio'r data, rydym yn cyhoeddi erthyglau ymchwil fel mater o drefn ynghyd â chrynodebau lleyg a gweminarau ar gyfer ein rhanddeiliaid addysgol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr hyn a allai esbonio'r mathau o risgiau sy'n wynebu pobl ifanc yng Nghymru, a'r hyn y gallai ysgolion fod yn y sefyllfa orau i'w wneud yn ei gylch.

Gallwch ddod o hyd i restr lawn o'n cyhoeddiadau, yn ogystal â sesiynau briffio ymchwil leyg a recordiadau gweminar sy'n ymdrin â ffitrwydd bwyd a gweithgarwch corfforol, iechyd meddwl a lles emosiynol, rhyw a chydberthynas, ymddygiadau risg a pholisïau lles ysgolion, ar wefan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion.



## Datblygu gweithle iach

Un o'r meysydd ffocws newydd o fewn y rhaglen hon yw lleoliad y gweithle, gan adeiladu ar waith diweddar gyda rhaglen 'Cymru Iach ar Waith' Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r ymchwilwyr DECIPHer Dr Jemma Hawkins a'r Athro Simon Murphy, a'r cynorthwyydd ymchwil Jordan Van Godwin, wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu offerynnau gwerthuso newydd ar gyfer y rhaglen Cymru Iach ar Waith.

Hyd yn hyn, mae hyn wedi cynnwys cynnal cyfweliadau â sefydliadau ledled Cymru sy'n cynrychioli'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws ystod o ddiwydiannau, yn ogystal ag adolygiad academaidd o ymchwil iechyd yn y gweithle bresennol a mesurau iechyd a lles sy'n gysylltiedig â gwaith. Cefnogwyd hyn gan leoliad hyfforddi cofrestrydd iechyd cyhoeddus a oedd wedi'i gydleoli rhwng Cymru Iach ar Waith a DECIPHer. Bydd yr offerynnau yn cefnogi cyflogwyr yng Nghymru i gynnal asesiad o iechyd a lles eu gweithlu, mesur cynnydd yn erbyn hyn, a datblygu arferion iechyd a lles sy'n seiliedig ar ddata, i gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru i leihau cyfran y boblogaeth sy'n gweithio sy'n gadael gwaith oherwydd salwch, ac argymhellion Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (2019). Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn gweithio ar ymgorffori mesurau newydd sy'n berthnasol i COVID-19 a gwaith, cyn cyfnod peilot arfaethedig yr offerynnau yn ystod haf 2021.

## 3. CYDBERTHNASAU CYMDEITHASOL IACH

Nod rhaglen Cydberthnasau Cymdeithasol Iach DECIPHer yw datblygu, addasu a gwerthuso ymyriadau sy'n gwella iechyd a lles drwy gryfhau cydberthnasau cymdeithasol. Mae gwaith y rhaglen dros y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar dair thema allweddol, sef atal trais a cham-drin domestig, datblygu ymyriadau iechyd a lles yn y teulu ac ymyriadau mewn ysgolion gydag elfen deuluol, a gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

### Atal trais a cham-drin domestig

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar atal a lleihau effaith trais a cham-drin domestig. Mae'n cynnwys gwerthusiad o'r prosiect Braenaru Iechyd, sy'n ceisio gwella cyrhaeddiad ac ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd i oroeswyr. Ar hyn o bryd, mae DECIPHer hefyd yn cynnal gwerthusiad o ymyriad seicogymdeithasol i gefnogi mamau a phlant sy'n agored i drais a cham-drin domestig. Ar y cyd â'r rhaglen lleoliadau, mae'n archwilio ymhellach sut i atal trais rhwng partneriaid agos drwy ymyriadau yn yr ysgol.

### Datblygu ymyriadau iechyd a lles yn y teulu

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ymyriadau sy'n cael eu darparu yng nghyd-destun y teulu. Mae hefyd yn ymwneud â datblygu cydrannau rhianta a all wella ymyriadau a ddarperir mewn lleoliadau ysgol. Rydym yn ymgymryd â gwaith meithrin gallu nodedig o fewn y thema hon, ar ôl cefnogi nifer o geisiadau am gymrodoriaeth ymchwil ôl-ddoethurol a cheisiadau am ysgoloriaeth ymchwil doethuriaeth. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys archwilio'r cysylltiadau rhwng rhianta a chanlyniadau iechyd a lles plant, deall a lleihau trais rhwng cenedlaethau, a datblygu safbwyntiau newydd ar ddulliau ysgol gyfan o wella iechyd.



Jeremy Segrott



Rhiannon Evans

### Gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

benodol ar deuluoedd lle ceir posibilrwydd bod plant a phobl ifanc mewn mwy o berygl o iechyd a lles gwael. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn angen, ar gyrion gofal, neu sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae DECIPHer wedi bod yn cydweithio ar y Rhwydwaith Ymchwil Drawsddisgyblaethol ar gyfer Gwella Iechyd Meddwl Ieuenctid (TRIUMPH). Fel rhan o'r rhwydwaith, rydym yn gweithio i ddeall pa ymyriadau ar-lein a allai weithio orau o ran gwella iechyd meddwl plant mewn gofal maeth. Rydym hefyd yn darparu adolygiad systematig o systemau cymhleth a ariennir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd i nodi dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwella iechyd meddwl a lles, ac yn atal hunan-niweidio a hunanladdiad, ymhlith unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

### Cynnwys y cyhoedd

Mae gan y rhaglen bwyslais cryf ar gynnwys y cyhoedd. Mae partneriaethau â llunwyr polisi ac ymarferwyr yn ganolog, gan helpu i wneud y mwyaf o effaith ein hymchwil a chreu cydweithrediadau sy'n cynyddu'r gallu ymchwil yn y sectorau rhianta a gofal cymdeithasol. Rydym wedi datblygu cydberthynas cynhyrchiol gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru. Fel rhan o'r cydweithio hwn, rydym yn gweithio i wella iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc mewn gofal.



"Dros y blynyddoedd, rydym wedi cael y pleser o ddatblygu cydberthynas ymchwil agos gyda Phrifysgol Caerdydd a DECIPHer. Mae'r bartneriaeth nid yn unig yn datblygu gwaith gwyddonol cymdeithasol gyda'i nodau a'i ddibenion ei hun ond hefyd, ac yn y bôn, yn ychwanegu gwir werth a budd yn y gymuned faethu yn gyffredinol. Mae hefyd yn diwallu angen cydnabyddedig. Mae rhwydweithio wedi arwain at gydweithio sy'n fuddiol i'r ddwy ochr ar brosiectau ymchwil, wedi hwyluso mynediad at gyllid, ac wedi gwella'r defnydd a wneir o ddata o safbwynt y brifysgol, a ni fel sefydliad trydydd sector."

Maria Boffey
Pennaeth Gweithrediadau
Rhwydwaith Maethu Cymru



## Llywio'r ymateb i'r pandemig

Mae ein canllawiau a'n fframweithiau dulliau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn parhau i gael effaith yn y DU a'r tu hwnt. Er enghraifft, mae ein fframwaith ar gyfer cydgynhyrchu a llunio prototeipiau ar gyfer ymyriadau iechyd y cyhoedd (1) (a ddatblygwyd gan Dr Jemma Hawkins, Dr James White a'r Athro Simon Murphy, sef ymchwilwyr DECIPHer) wedi llywio canllawiau a gynhyrchwyd gan grŵp arbenigol y grŵp Ffliw Pandemig Gwyddonol Annibynnol ar Ymddygiadau, sy'n rhan o Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau Llywodraeth y DU. Mae'r fframwaith yn rhan o egwyddorion a argymhellir y grŵp ar gyfer cydgynhyrchu canllawiau COVID-19, a chyfeirir ato yn ogystal mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer ymddygiadau ataliol COVID-19 ymhlith pobl ifanc.

# 4. ARLOESEDD METHODOLEGOL YM MAES GWYDDONIAETH IECHYD Y CYHOEDD

Mae rhaglen fethodoleg DECIPHer yn canolbwyntio ar ddatblygu arweiniad a hybu arloesedd methodolegol ar gyfer datblygu, gwerthuso a gweithredu ymyriadau i wella iechyd a lles. Mae gan DECIPHer hanes hirsefydlog fel arweinydd byd-eang mewn arloesi methodolegol, gan gynnwys datblygu canllawiau dulliau ar werthuso prosesau, darnau trafod ar wyddoniaeth ymyrraeth systemau cymhleth, ac astudiaethau achos ym maes arloesedd.

## Canllawiau methodolegol

Mae'r gwaith o ddatblygu canllawiau a theori fethodolegol yn ystod y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar gydgynhyrchu ac addasu ymyriadau ym maes iechyd y cyhoedd. Ers 2018, mae Graham Moore a Rhiannon Evans, sef cyd-ymchwilwyr DECIPHer, wedi bod yn arwain astudiaeth a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Feddygol a Rhaglen Ymchwil Iechyd y Cyhoedd i ddatblygu canllawiau ar addasu ymyriadau ar gyfer cyd-destunau newydd megis gwlad wahanol, gyda phoblogaeth wahanol, neu yng nghyd-destun strwythur sefydliadol gwahanol. Cyhoeddwyd fersiwn 1 o'r canllawiau a gwblhawyd ar wefan DECIPHer ym mis Hydref 2020, ac mae erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid yn cyd-fynd â chanfyddiadau pob cam o waith datblygu'r cyfarwyddyd (2, 3, 4). Ers ei gyhoeddi, gwahoddwyd y tîm ADAPT i gyflwyno'r canllawiau mewn nifer o ddarlithoedd a seminarau rhyngwladol, gan gynnwys yn Sefydliad Ymchwil Atal Leibniz yn Bremen, Ysgol Iechyd y Cyhoedd Harvard T. H. Chan, a Phrifysgol Washington yn St Louis.



Jemma Hawkins



Mike Robling

## Dulliau cydgynhyrchu

Mae'r myfyriwr doethuriaeth Hayley Reed yn datblygu damcaniaeth rhaglen ymyrraeth ar gyfer cydgynhyrchu ymyriadau iechyd mewn ysgolion, dan oruchwyliaeth Dr Rhiannon Evans a'r Athro Simon Murphy, sef ymchwilwyr DECIPHer. Bydd y ddamcaniaeth yn cefnogi ymchwilwyr a rhanddeiliaid ysgolion o ran cydgynhyrchu ymyriadau iechyd o safon yn ogystal â rhoi arweiniad i gyllidwyr ymchwil ac adolygwyr cymheiriaid ar y swyddogaethau a gweithgareddau ymyrryd sydd eu hangen i gydgynhyrchu ymyriadau yn yr ysgol. Mae dau gam i'r astudiaeth datblygu ymyriadau, gan gynnwys adolygiad systematig o astudiaethau ymyrraeth a gyd-gynhyrchir a synthesis thematig o brofiadau rhanddeiliaid er mwyn mynegi'r ddamcaniaeth, yn ogystal ag ymchwil astudiaethau achos gyda dwy ysgol uwchradd er mwyn ei mireinio.

## Defnyddio data arferol

Mae ein harloesedd methodolegol hefyd yn cynnwys defnyddio data a gesglir fel mater o drefn mewn ffyrdd newydd. Un enghraifft yw astudiaeth a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol dan arweiniad Dr Sara Long, sef cydymaith ymchwil DECIPHer, sydd â'r nod o archwilio 1) y perthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau iechyd ac addysg plant sy'n destun ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol, a 2) i ba raddau y mae ymyrraeth, gan gynnwys rhoi plant mewn gofal, yn ffactor amddiffynnol. Mae'r astudiaeth hon wedi cysylltu data o Garfan Electronig Cymru ar gyfer Plant â data gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gesglir fel mater o drefn drwy gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg astudiaethau meintiol hydredol ar raddfa fawr yn y DU, gan archwilio rôl ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol o ran rhagweld canlyniadau addysg a'r defnydd o ofal iechyd er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau polisi ynghylch yr hyn sy'n gweithio orau i wahanol blant sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol.

# CYDWEITHREDIADAU, YMGYSYLLTU AC EFFEITHIAU

## Gweithio gyda rhanddeiliaid ysgolion: Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion

a sefydlwyd yn 2013, oedd y rhwydwaith cenedlaethol cyntaf o'i fath yn y byd. Mae'n dod â'r holl ysgolion uwchradd prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, ymchwilwyr academaidd, llunwyr polisïau ac ymarferwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol at ei gilydd er mwyn hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o wella iechyd a lles pobl ifanc yn lleoliad yr ysgol. Drwy gydweithio strategol, darparu data a datblygu gallu, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion hefyd yn hwyluso partneriaethau ymchwil i gydgynhyrchu cwestiynau ymchwil, nodi arloesedd ar y rheng flaen, a chydweithio ar astudiaethau ymchwil a fabwysiadwyd gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Mae'r rhwydwaith yn sicrhau bod yr ymchwil yn berthnasol i randdeiliaid er mwyn sicrhau y bydd tystiolaeth yn fwy tebygol o ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer ar gyfer effeithiau iechyd y boblogaeth. Mae seilwaith data cenedlaethol yn sylfaenol i weithgarwch y rhwydwaith: Mae ysgolion yn cwblhau Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr electronig dwyieithog bob dwy flynedd (a gwblhawyd yn 2019 gan dros 70% o bobl ifanc 11-16 oed yng Nghymru) a Holiadur Amgylchedd Ysgolion i arweinwyr ysgolion. Mae'r data hwn yn cael ei rannu ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel ysgol.




Simon Murphy



Joan Roberts

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

## Adroddiadau cenedlaethol




Rydym yn llunio adroddiad dangosyddion cenedlaethol rheolaidd ar gyfer Cymru ac yn darparu data ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, y Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc, dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Cherdyn Adrodd Plant Iach Egnïol Cymru.

**Enghreifftiau o bolisïau a strategaethau yng Nghymru a ategir gan ddata'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion**

- Adroddiad Cadernid Meddwl
- Adroddiad Llesiant Cymru 2017-18
- Cynllun Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco 2017-2020
- Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru – Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (Gorffennaf 2018)
- 'Gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc' (Mawrth 2019) gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- 'Gwerthfawrogi ein hiechyd', Adroddiad Blynyddol 2018/19 Prif Swyddog Meddygol Cymru (Mai 2019)
- Ymateb Llywodraeth Cymru i Weithgarwch Corfforol Plant a Phobl Ifanc – Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (Mawrth 2019)
- Cymunedau Cysylltiedig Llywodraeth Cymru – Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ac adeiladu cysylltiadau cymdeithasol cryfach (Chwefror 2020)
- Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru
- 'Iach ac yn Hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion', adroddiad Estyn (Mehefin 2019)
- 'Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant', adroddiad Estyn
- The Good Childhood Report 2020, Cymdeithas y Plant



"Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn cydweithio â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion drwy ddarparu cyllid o'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg, a thrwy wneud penderfyniadau strategol ar y cyd er mwyn cael effaith ar y system ysgolion genedlaethol a gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc. Gall y data hyn hybu gwaith cadw gwyliadwriaeth cenedlaethol, a gwaith monitro a gwerthuso polisïau. Mae hefyd wedi gwella'r gallu i fonitro iechyd a lles pobl ifanc mewn perthynas â meysydd polisi sy'n dod i'r amlwg megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015."

Dr. Chris Roberts
Dirprwy Brif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru



"Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am Rwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru ac mae wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion i integreiddio'r ddau rwydwaith yn agosach – y mae dull un ohonynt yn canolbwyntio ar ymarfer a'r llall yn canolbwyntio ar ymchwil – fel y gall y ddau ohonynt ddefnyddio asedau ac arbenigedd y llall er mwyn creu gwelliannau mwy effeithiol a pharhaus ym maes iechyd a lles myfyrwyr. Mae ein cydweithrediad yn seiliedig ar fanteision cyfatebol o ran y ffaith fod y Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach yn ein helpu i wella gweithrediad system ysgolion Cymru mewn perthynas ag iechyd a lles, tra ydym yn gwella cyfleoedd ymchwilwyr y Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach i sicrhau y ceir effaith o ganlyniad i'w hymchwil."

Dr. Julie Bishop
Cyfarwyddwr Gwella Iechyd
Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Adroddiadau rhanddeiliaid ac ysgolion rhanbarthol

Mae ysgolion ac AALlau yn derbyn eu hadroddiadau iechyd a lles wedi'u teilwra eu hunain sydd wedi'u meincnodi yn erbyn cyfartaleddau cenedlaethol. Mae ysgolion y Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach yn defnyddio'u data fel mater o drefn i gynnwys eu cymunedau mewn gweithgareddau hunanwerthuso er mwyn llywio'r cwricwlwm a Mentrau Ysgolion Iach.




Mae gweithgareddau ac adnoddau'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach ar gyfer ysgolion, a'r gweithgareddau ac adnoddau sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles, yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu a rhannu arferion da ym maes defnyddio tystiolaeth ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys gweminarau rheolaidd a briffiau ymchwil leyg ar gyfer ysgolion, a digwyddiadau haf blynyddol. Mae gennym bartneriaeth gref gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi ei Rwydwaith o Ysgolion Iach a'r Strategaeth Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl.

## Datblygiadau'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach

Mae cydnabyddiaeth o werth y Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach wedi arwain at fuddsoddiad gan Weinidog Addysg a Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru mewn astudiaeth barhaus o ddichonoldeb, y caiff ei hehangu i nifer o ysgolion cynradd, gyda ffocws cychwynnol ar y blynyddoedd pontio. Mae'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach hefyd wedi cyflawni effaith ledled y DU drwy sefydlu partneriaethau i ddatblygu'r rhwydwaith ysgol Schools Health and Well-being Improvement Research Network (SHINE) yn yr Alban (2018), cysoni mesurau â charfan newydd i asesu'r effaith ar symudedd cymdeithasol yn Lloegr (2021), a chefnogi rhwydwaith ymchwil iechyd ysgolion uwchradd ar draws Manceinion (2021).

Mae partneriaeth â Sefydliad Iechyd y Byd ac Ysgolion Iechyd yn Ewrop wedi cefnogi cynlluniau peilot rhyngwladol o ddull y Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach. Mae'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil Feddygol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Adrannau Iechyd ac Addysg Llywodraeth Cymru, ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

"Mewn ymateb i'r canfyddiadau yn adroddiad sirol y Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach, mae cynllun gweithredu iechyd a lles sirol yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei weithredu dros gyfnod o bedair blynedd. Mae Cyngor Ieuenctid Sir y Fflint wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun gweithredu sirol ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo."

**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint, 2018**

"[Mae'r adroddiad wedi] dylanwadu ar bob maes – cynllunio addysg rhyw a chydberthynas, bwyd ysgolion iach sydd ar gael yn yr ysgol, polisi bwyd a ffitrwydd, gwasanaethau iechyd meddwl, a chynnwys y cwricwlwm. Mae'r tîm lles yn ei ddefnyddio wrth gynllunio addysg a chamau gweithredu, datblygu'r cwricwlwm ABCh, a blaenoriaethu gweithgareddau allgyrsiol."

**Arweinydd iechyd a lles ysgolion Sir Benfro**

"... yr hyn nad oedd gennym fynediad ato mewn gwirionedd oedd gwybodaeth wirioneddol am y pethau yr oedd angen i ni eu blaenoriaethu ... Credaf mai dyna fu'r rhan fwyaf buddiol, bur debyg, sef y ffaith bod gennym ddata amserol erbyn hyn, lle gallwn ystyried, wyddech chi, ein myfyrwyr mewn amser real, a dweud mai dyma'r hyn sydd o bwys ar gyfer Blwyddyn 8 ..."

**Pennaeth Cynorthwyol Casnewydd**

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales | WISERD | CANCER RESEARCH UK

# Gweithio gyda'r cyhoedd ac ALPHA



Jeremy Segrott



Peter Gee

ADVICE LEADING TO PUBLIC HEALTH ADVANCEMENT

ALPHA

DECIPHER's RESEARCH ADVISORY GROUP OF YOUNG PEOPLE

## Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd (GLCC)

Yn ein cynlluniau ar gyfer DECIPHer dros y pum mlynedd nesaf, gwnaethom nodi y byddai'r Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd yn cynnal trosolwg o waith datblygu strategol a goruchwylio mewn perthynas â chynnwys y cyhoedd. Mae'r Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd sydd newydd ei ffurfio yn cynnwys rhanddeiliaid allanol o bob rhan o Gymru sydd ag arbenigedd yn ein tri phrif faes gwaith o ran cynnwys y cyhoedd, sef datblygu'n barhaus ein Grŵp Cynghori ar Ymchwil i Bobl Ifanc – y Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd, datblygu Grŵp Cynghori Cenedlaethol i Fyfyrwyr Cymru Gyfan, a ffurfio grŵp cynghori Rhieni a Gofalwyr.

"Rydym wedi bod yn falch iawn o fod yn rhan o Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd Canolfan DECIPHer. Gan ddilyn dull cydweithredol a arweinir gan werthoedd, mae'r tîm yn ceisio barn holl aelodau'r grŵp yn weithredol gyda pharodrwydd gweladwy i archwilio syniadau a meithrin cydberthnasau newydd. Mae adeiladu rhwydwaith ehangach yng Nghymru i hyrwyddo cydweithio nid yn unig wedi bod yn werthfawr i Ganolfan DECIPHer ei hun ond hefyd i aelodau'r Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd."

**Lleisiau Rhieni yng Nghymru**

## Y Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd

Mae hwn yn grŵp cynghori ymchwil sy'n cynnwys pobl ifanc 14-25 oed, ac mae eu mewnbwn yn helpu i sicrhau bod ymchwil DECIPHer yn berthnasol i bobl ifanc a'u hanghenion. Mae aelodau'r Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd bellach yn cael eu cynrychioli yn y Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd, gan helpu i sicrhau bod barn pobl ifanc yn llywio ein cyfeiriad strategol. Eleni rydym wedi cyfarfod â dros 40 o aelodau'r Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd ar 13 achlysur, gan ymgynghori ar wyth cynnig ariannu ymchwil a phedair astudiaeth ymchwil a ariannwyd. Mae hyn yn cynnwys rhoi mewnbwn strategol i Dîm Astudiaethau Ymatebol Ymyrraeth Iechyd y Cyhoedd a gefnogir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl ar gyfer gwefan Hwb dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae'r Swyddog Cynnwys y Cyhoedd a nifer o aelodau'r Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd wedi darparu llais ieuenctid ac arbenigedd ym maes cynnwys y cyhoedd, gan helpu i ddatblygu seilwaith a dylanwadu ar bolisïau ar gyfer rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol, sef rhwydwaith eNurture UKRI, y Ganolfan Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Cymdeithasol (CAST), Cymdeithas Ymchwil Atal Ewrop, Prifysgol Aalborg, Canolfan Wolfson, a'r Gymdeithas Ymchwil Atal.

enurture

"Fel grŵp, rydym wedi cael y cyfle i weithio ar amrywiaeth o faterion iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gordewdra, ysmygu a sawl un arall. Rydym wedi gallu gweithio gydag ymchwilwyr ledled y wlad ac rydym wedi helpu i lunio ymyriadau allweddol ym maes iechyd y cyhoedd."

**Natalie Howell**
**Aelod o'r Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd**





## Datblygu cyfranogiad

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi ehangu ein gwaith ar gynnwys y cyhoedd drwy sefydlu Grŵp Cynghori Cenedlaethol i Fyfyrwyr a Grŵp Cynghori Rhieni a Gofalwyr. Mae'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i Fyfyrwyr yn rhwydwaith o fyfyrwyr ysgol uwchradd sy'n cynghori ein hymchwilwyr drwy drafod a dadlau eu barn ar ymchwil iechyd y cyhoedd. Mae'n gyfystyr ag ehangu'r Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd i gynnwys pobl ifanc ledled Cymru drwy leoliad yr ysgol. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal y Grŵp Cynghori Cenedlaethol i Fyfyrwyr, rydym wedi datblygu Platfform Gweithgareddau Ymchwil Ar-lein, sy'n ei gwneud yn bosibl i ymchwilwyr gysylltu a chydweithio â nifer fawr o fyfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion o bob cwr o Gymru. Mae'r Grŵp Cynghori Rhieni a Gofalwyr yn adeiladu ar y model llwyddiannus a ddatblygwyd gan grŵp y Cyngor sy'n Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd, ac mae'n allweddol o ran ein galluogi i ddatblygu cyfranogiad rhieni ymhellach mewn astudiaethau ymchwil.

## Datblygu partneriaethau

Helpodd y broses o rannu arferion cynnwys y cyhoedd gydag ymchwilwyr o'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl i gefnogi'r gwaith o greu ei Grŵp Cynghori Ieuenctid. Mae Grŵp Cynghori Ieuenctid y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn grŵp o saith o bobl ifanc 14-19 oed sydd â chyflyrau niwroamrywiol sy'n cynghori ac yn cefnogi ymchwilwyr sy'n cynnal ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd meddwl pobl ifanc. Cefnogodd y Swyddog Cynnwys y Cyhoedd hefyd y Rhwydwaith Ymchwil Drawsddisgyblaethol ar gyfer Gwella Iechyd Meddwl Ieuenctid (TRIUMPH) i gynnwys pobl ifanc yn y broses o asesu cynigion ariannu. Roedd cynnwys pobl ifanc yn y broses hon yn cynnig cipolwg i ni o ran sut yr ystyriodd pobl ifanc y prosiectau ac yn sicrhau bod pobl ifanc yn gwneud cyfraniad ystyrlon ym mhob un o'r prosiectau a ariannwyd. O'r 34 o geisiadau a gafwyd, cafodd pedwar prosiect eu hariannu gan y Rhwydwaith Ymchwil Drawsddisgyblaethol ar gyfer Gwella Iechyd Meddwl Ieuenctid, gyda chyfanswm gwerth grant o £116,478 a phob prosiect yn derbyn hyd at £30,000.




TRIUMPH

## Datblygu cydweithrediadau ac ymgysylltu rhyngwladol




### Cydweithrediadau rhyngwladol ac ymrwymiadau grwpiau ymchwil

**1.** Ym mis Ebrill 2020, gwahoddwyd Dr Jemma Hawkins i gyfrannu at gwrs MSc Iechyd y Cyhoedd ar-lein newydd ym Mhrifysgol Limerick, Iwerddon, ac ers hynny mae wedi'i phenodi'n Uwch-ddarlithydd Cynorthwyol yn y brifysgol honno.

**2.** Dr Hannah Littlecott â swydd ran-amser yn gweithio gyda'r Athro Eva Rehfuess yn LMU Munich rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021, gan weithio ar brosiect i ddatblygu ecosystem o dystiolaeth ar gyfer COVID-19.

**3.** Gwahoddwyd yr Athro Graham Moore a Dr Jemma Hawkins i gyflwyno darlithoedd ar gyfer cynhadledd ar-lein i Sefydliad Leibniz ar gyfer Ymchwil Atal ac Epidemioleg ym Mhrifysgol Bremen ym mis Tachwedd 2020. Mae hyn wedi arwain at gais am gyllid i ddatblygu cyfres o seminarau ar-lein cysylltiedig rhwng y ddwy brifysgol.

**4, 5 & 6.** Mae Dr Rhiannon Evans a'r Athro Graham Moore wedi bod ynghlwm wrth ymrwymiadau gwahanol gyda grwpiau ymchwil rhyngwladol i ledaenu'r canllawiau ADAPT, gan gynnwys y Grŵp Addasu, Cywirdeb a Theilwra yng Nghaliffornia a Colorado ym mis Rhagfyr 2020; Sefydliad St. Louis ar gyfer Ysgolheigion Gwyddoniaeth Gweithredu, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Washington yn St. Louis; a'r Gweithgor Gwyddoniaeth Gweithredu, yn Ysgol Iechyd y Cyhoedd Harvard T. H. Chan.

### Cyflwyniadau cynhadledd ar-lein

**7.** Cyflwynodd Rachel Parker ei hymchwil doethuriaeth yng Nghynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Astudio Hunan-anafiadau ym mis Mehefin 2020, a gynllluniwyd yn wreiddiol ei chynnal yn Fienna.

**8**. Cyflwynodd Dr Rhiannon Evans, yr Athro Simon Murphy a'r Athro Graham Moore gyflwyniadau yng nghynhadledd ryngwladol y Gymdeithas Ymchwil Atal (a leolir yn Vancouver) ym mis Gorffennaf 2020.

**9.** Dr Jemma Hawkins brif gyflwyniad ar gyfer Cynhadledd Flynyddol Ymchwil Effeithiolrwydd y Ffindir ym mis Hydref 2020.

**10.** Dr Jeremy Segrott a Peter Gee weithdy ar gyfer cynhadledd rithwir EUSPR (sydd wedi'i lleoli yn Palma) a chyfarfod yr aelodau ym mis Hydref 2020. Cynhaliodd Jeremy sesiwn ychwanegol hefyd gydag Ina Koning o Brifysgol Utrecht.

**11.** Dr Kelly Morgan ddau grynodeb yng Nghynhadledd y Rhwydwaith Cysylltiadau Data Poblogaeth Rhyngwladol (IPDLN) ym Mhrifysgol Gorllewin Awstralia, Perth, ym mis Tachwedd 2020, a dewiswyd un ohonynt fel un o'r crynodebau â'r sgôr uchaf.

**12.** Dr Yulia Shenderovich yn yr Uwchgynhadledd Tystiolaeth a Gweithredu (a gynhaliwyd gan y Ganolfan Dystiolaeth a Gweithredu a Phrifysgol Monash) ym mis Mawrth 2021.

### Cyfarfodydd ymchwil

**13.** Dr Jeremy Segrott gyfarfod ar-lein Grŵp Ymchwil Ysgolion Iechyd yn Ewrop (yn Nenmarc) ym mis Mehefin 2020 i drafod ymchwil iechyd ysgolion, gweithgareddau'r grŵp ymchwil a COVID-19.

**14.** Mynychodd Rachel Parker gyfarfod busnes rhithwir Adran Astudiaethau Hunanladdiad ac Atal Hunanladdiad Cymdeithasau Seiciatrig Ewrop (sydd wedi'i leoli yn Strasborg) ym mis Hydref 2020 i drafod cymorth i fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran atal hunanladdiad sy'n deillio o'r pandemig COVID-19.

# CASGLIAD

Eleni, gwelwyd cyfnod newydd ar gyfer DECIPHer. Ar ôl cael ein hariannu'n flaenorol gan Gydweithrediad Ymchwil Glinigol y DU, yn 2019 gwnaethom sicrhau cyllid gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer canolfan yng Nghymru. Mae gennym raglenni ymchwil, pecynnau gwaith ac ymchwilwyr newydd. Mae'r ganolfan bellach yn defnyddio partneriaeth rhwng Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a'r Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gan fyfyrio ar ein cynnydd blynyddol, er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf, mae DECIPHer wedi sicrhau cyllid ymchwil mawr, wedi cychwyn amrywiaeth o brosiectau ymchwil, wedi datblygu gallu a gweithgareddau ymgysylltu, ac wedi cryfhau cydweithrediadau. Mae'n werth nodi ein partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl a Chyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, a sicrhaodd y £10 miliwn ar gyfer y Ganolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, a'r cyllid gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd ar gyfer un o dimau cenedlaethol Tîm Astudiaethau Ymatebol Ymyrraeth Iechyd y Cyhoedd gyda Phrifysgol Bryste.

Wrth edrych ymlaen, mae'n amlwg bod DECIPHer mewn sefyllfa i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi iechyd o safbwynt pob dull polisi o adfer yn sgil y pandemig, ynghyd ag amrywiaeth o ddeddfau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, yn ogystal â pholisïau fel y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl, y Strategaeth Gordewdra Genedlaethol, a thrawsnewid y cwricwlwm yng Nghymru.

Mae'n werth amlygu hefyd y ffaith y bydd y cylch nesaf o gasglu data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn digwydd yn 2021, a fydd yn ymgorffori'r arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol gan Sefydliad Iechyd y Byd. O ystyried y digwyddodd y casgliad data diwethaf rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2019, bydd hyn yn darparu data amhrisiadwy ar gyfer y cyfnod cyn / ar ôl y pandemig ar amrywiaeth o ddangosyddion iechyd a lles. Bydd ein rhwydweithiau cydweithredol yn darparu fframwaith cryf i wella'r gwaith o drosi'r ymchwil hon ar gyfer nifer o randdeiliaid.